Prifysgol Abertawe
Swansea University

Astudiaeth Achos: Pysgodfa Dôl-Haidd Isaf

Diogelu'r Dyfodol

hyfforddiant mewn datblygiad cynaliadwy ar gyfer busnesau proffesiynol

Pysgota ar gyfer y Dyfodol

hyfforddiant mewn datblygiad cynaliadwy ar gyfer y sector Rheoli Pysgodfeydd

Delir yr hawlfraint ar y defnyddiau cyhoeddedig o brosiect PP4SD Prifysgol Abertawe, yn y fformadau argraffedig a chrynoddisg, gan yr awduron. Rydym yn cefnogi'r defnydd o'r defnyddiau, gan ofyn yn unig am i'r gydnabyddiaeth ganlynol gael ei rhoi bob tro y'u defnyddir:

"Datblygwyd y defnyddiau hyn gan dîm PP4SD ym Mhrifysgol Abertawe, gyda mewnbwn arbenigol gan PP4SD y DU. Cefnogwyd y gwaith o'u datblygu a'u cynhyrchu gan Gronfa Manteisio ar Wybodaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd dan Amcanion 1 a 3."

(Delir yr hawlfraint ar lawlyfr gwreiddiol PP4SD, y daw defnydd Prifysgol Abertawe'n rhannol ohono, gan Sefydliad y Gwyddorau Amgylcheddol.)

Cefnogir gan Gronfa Manteisio ar Wybodaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd dan Amcanion 1 a 3

Lantra

ARFERION PROFFESIYNOL TUAG AT DDATBLYGU CYNALIADWY
pp4sd
PROFESSIONAL PRACTICE FOR SUSTAINABLE DEVELOPMENT

Astudiaeth Achos: Pysgodfa Dôl-Haidd Isaf

Cyflwyniad a Chefndir

Perchnogion Dôl-Haidd Isaf a'r 40 erw (27 ha) o'i chwmpas yw Brian a Pat Scull. Mae'r busnes yn cynnwys 40 erw (27 ha) a phedwar o fythynnod wedi'u hadnewyddu i safon uchel, lle y cynigir llety gwyliau hunanarlwyol â hawl breifat i bysgota am eogiaid a brithyllod afon a môr ar afon enwog y Teifi. Y Teifi yw un o'r prif leoedd ar gyfer pysgota gêm yng Nghymru; mae'n llifo'n gyflym fel arfer ac mae'r lefel yn tueddu i godi a syrthio'n gyflym yn sgil glawogydd trwm. Mae gan Ddôl-Haidd Isaf hawliau pysgota ar hyd tri chwarter milltir o'i glannau.
Saif y tai haf hunangynhaliol mewn safle unigryw ar riw isel sy'n edrych dros afon Teifi. Mae'r casgliad adeiladau o ddiddordeb hanesyddol a phensaernïol gan fod rhannau ohono'n dyddio o'r 15fed ganrif. Mae'r tiroedd yn amgylchynu'r ffermdy a phedwar bwthyn, sydd mewn clwstwr o amgylch libart yn wynebu'r de. Yn y cefn maent yn edrych dros lawnt a chaeau'n ffin iddi. Mae'r mynediad gwastad rhwydd i'r lle'n gwneud ardal yr afon yn addas iawn ar gyfer unrhywun ag anableddau.
Mae natur amrywiol y dyfroedd hyn yn creu cyfle i bysgota am frithyllod mawr y môr o ddechrau Ebrill ymlaen trwy gydol mis Mai, a daw brithyllod môr heigiog wedyn ym mis Mehefin. Mae dalfeydd da o frithyllod afon ar gael unrhyw ddiwrnod yn ystod y tymor. Mae'r glaw hydrefol ym mis Medi a mis Hydref yn dod â heigiau da o eogiaid, a phwysau'r pysgod trymaf a ddaliwyd hyd yn hyn yn Nôl-Haidd Isaf oedd 24lb (>10kg).

Ffynhonnell: Yvonne Jones, Prifysgol Abertawe

Ym mis Rhagfyr 1997 fe ddynodwyd yr ardal yn Safle Cenedlaethol o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) oherwydd ei chyfoeth amrywiol o anifeiliaid, a phlanhigion.
Yn 2006 fe ddynodwyd Dyffryn Teifi'n Ardal Cadwraeth Arbennig (SAC). Mae ymwelwyr yn cael cyfleoedd i weld amryw rywogaethau gwyllt yn eu cynefin naturiol gan gynnwys dyfrgwn, moch daear, cadnoid, boncathod, barcudiaid cochion, tylluanod gwynion, trochwyr ayyb. Yn y blynyddoedd diwethaf hyn mae adar o 72 o rywogaethau wedi cael eu cofnodi ar y safle.

Heriau a Phwysau o blaid Newid

- Galw'r cwsmeriaid am lety o ansawdd uchel mewn amgylchiadau prydferth digyffwrdd
- Ymrwymiad i ddarparu cyfleusterau pysgota o ansawdd uchel
- Cystadleuaeth yn y sector twristiaeth a physgota
- Yr angen i osgoi gor-bysgota
- Mae ffactorau mewn mannau eraill yn effeithio'n hawdd ar bysgota; gobeithir er enghraifft y bydd y gwaharddiad ar rwydi cadw Gwyddelig yn effeithio er gwell ar niferoedd yr eogiaid sy'n nofio i fyny'r afon. Mae effeithiau negyddol yn gallu dylanwadu hefyd, llygredd yn yr afon er enghraifft
- Colli cymorth ariannol oddi wrth y llywodraeth leol mewn perthynas â llety hunanarlwyol.
- Mae Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (AAC/EAW) yn rheoli niferoedd y pysgod sy'n cael eu tynnu allan o'r afon; ers 2000 er enghraifft, mae'n rhaid i bob eog sy'n cael ei ddal cyn yr 17eg o Fehefin gael ei ddychwelyd i'r afon
- Nifer uchel o fincod, sy'n ysglyfaethwyr arbennig o farus.

Dull gweithredu

Nid oes gan Ddôl-Haidd Isaf bolisi Datblygiad Cynaliadwy mewn ysgrifen, ond mae'r perchnogion yn ymwybodol iawn mai craidd eu busnes yw gwerthu profiad pysgota o ansawdd mewn amgylchiadau naturiol heb eu hail mewn ardal sy'n ddeniadol dros ben i dwristiaid. Yn 2007 mae Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru wedi caniatáu ail-stocio dwy o ragnentydd afon Teifi trwy ryddhau 13,000 o eogiaid ifanc. Mae angen deorfa bysgod ar y Teifi i wneud iawn am y gostyngiad yn nifer y pysgod ymfudol.

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru'n caniatáu dalfa o ddau eog y dydd (mwyafswm o 5 yr wythnos), a phedwar brithyll môr y dydd (mwyafswm o 28 yr wythnos), sydd ym marn Mr a Mrs Scull yn rhy uchel o lawer. Maent yn pryderu felly y gallai gor-bysgota droi'n broblem. Er mwyn lleihau'r bygwth hwn i'r busnes gymaint â phosibl mae Dôl-Haidd Isaf yn gosod cyfyngiadau ychwanegol, gan beidio â chaniatáu mwy na dwy wialen bysgota i bob bwthyn, na mwyafswm o fwy na phum gwialen ar eu hyd o'r afon ar unrhyw adeg. Maent yn fodlon gwrthod derbyn mwy o gwsmeriaid os oes angen er mwyn cadw o fewn y cyfyngiad hwn.

Mae nifer o arferion cynaliadwy eraill yn rhan hanfodol o drefniant y busnes o ddydd i ddydd.

- Defnyddir cynnyrch lleol lle bynnag y gellir.
- Gwneir ymdrech i ailgylchu cymaint o wastraff â phosibl.
- Mae gwelliannau i lannau'r afon yn cael eu cyfyngu i'r maint lleiaf posibl, ac maent yn cydweddu â gwedill y dirwedd ayyb.
- Dim ond yn yr ardaloedd mynediad y torrir y gwair.
- Gadewir y gwair heb ei dorri mewn ardaloedd naturiol lle bynnag y gellir.
- Rhywogaethau brodorol yn bennaf sy'n cael eu plannu.
- Hybir gweithgareddau sy'n cydweddu â physgota, megis gwylio adar a phaentio.

Buddion i'r busnes

Mae Dôl-Haidd Isaf yn denu nifer gynyddol o gwsmeriaid ffyddlon sy'n gwerthfawrogi'r profiad pysgota safonol a gynigir iddynt. Mae ymrwymiad y perchnogion i amddiffyn a chryfhau'r amgylchedd naturiol yn apelio at nifer gynyddol o gwsmeriaid sy'n gofyn lleoedd gwyliau â chredfanylion 'gwyrddach'. Mae cyfyngu ar nifer y gwiail pysgota sy'n defnyddio'r hyd hwn o'r afon yn sicrhau profiad pysgota o safon dda gyson i bob cwsmer – er y gall hyn olygu colli cwsmeriaid ar adegau.

Buddion Amgylcheddol

- Mae prynu'n lleol yn hybu cynnyrch a gwasanaethau o safon tra'n dod â buddion i'r gymuned wledig leol
- Mae cyfyngu ar dorri'r gwair yn hybu bio-amrywiaeth, sydd yn ei thro'n cyfoethogi profiad y cwsmeriaid
- Mae plannu rhywogaethau brodorol yn hybu bio-amrywiaeth leol
- Mae gochel rhag gor-bysgota'n cynnal bio-amrywiaeth yr afon yn ogystal ag amddiffyn prif adnodd y busnes
- Mae ailgylchu gwastraff yn lleihau'r maint a anfonir i safleoedd tirlenwi.

Heriau a Chyfleoedd y Dyfodol

Mae'r rheol sy'n gwahardd dal eogiaid cyn yr 17eg o Fehefin yn golygu colled incwm yn ystod misoedd y gwanwyn. Mae'n hanfodol felly i'r busnes gael hyd i ffynhonnell incwm arall.
Mae'r ffaith bod Dŵr Cymru'n tynnu dŵr o afon Teifi yn ystod misoedd yr haf yn broblem gynyddol.